PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

CYSWLLT RHIENI CYMRU
PARENTS CONNECT WALES

# Canfyddiadau Arolwg Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd 2024: Rhieni/Gofalwyr

Rhannodd **522** o rieni a gofalwyr eu barn, ac roedd hynny'n cynrychioli **1084** o blant

## Y 5 mater cysylltiedig â thlodi oedd ar y brig

1. Costau byw cynyddol
2. Costau ynni
3. Dyled
4. Methu fforddio bwyd
5. Cyflog isel

*"Rydw i'n cadw golwg ar bob un geiniog. Rydw i wedi ymlâdd, mae'n anodd meddwl yn bositif, ac rydw i'n teimlo'n euog bod fy mhlant yn colli cyfleoedd oherwydd mod i'n methu eu fforddio."*

**94%**

Mae **94%** o'r ymatebwyr yn teimlo bod rhieni/gofalwyr yn pryderu am fedru fforddio pethau angenrheidiol.

*"Mae'n torri fy nghalon bod plant yn llwgu. Rydw i wedi mynd heb fwyd i roi bwyd i'm plant."*

**95%**

Mae **95%** o'r ymatebwyr yn teimlo bod sefyllfa ariannol rhieni/gofalwyr yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl.

Gorbryder Straen Llethu
Goroesi Pryder Brwydr Ynysu
Anobeithio Poen enaid

## Gofal Plant

**55%**

Dywedodd **55%** o rieni/ofalwyr fod anawsterau gofal plant yn eu hatal rhag gweithio mwy oriau.

**34%**

Gofal plant anffurfiol (teulu a ffrindiau) sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf, a dywedodd **34%** mai'r rheswm am hynny oedd bod gofal plant 'am dâl' ddim yn fforddiadwy.

**60%**

Dywedodd **60%** o'r teuluoedd sy'n talu am ofal plant ei fod yn rhoi straen aruthrol ar eu sefyllfa ariannol a'u gallu i fforddio hanfodion sylfaenol, ac yn golygu eu bod yn mynd i ddyled.

**ANAWSTERAU – Dewis cyfyngedig, hygyrchedd, a ddim yn darparu ar gyfer anghenion ychwanegol plentyn.**

*"Fyddai dim gwerth i mi weithio tase rhaid i fi roi fy mhlant mewn gofal plant."*

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES
END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU
CYSWLLT RHIENI CYMRU PARENTS CONNECT WALES

## Effaith tlodi

### Bywyd Teuluol

- Llai o arian ar gyfer hobïau, gweithgareddau a diwrnodau allan. Llai o amser gyda'n gilydd oherwydd ein bod ni'n gweithio mwy o oriau.

***"Gyda'n hamserlenni prysur, does dim llawer o amser i greu cysylltiad teuluol."***

### Tlodi cudd rhieni

- Mae rhieni'n aml yn aberthu pethau i sicrhau bod eu plant yn cael yr hanfodion.

***"Bydda i'n aml yn mynd heb ddillad newydd a sgidiau angenrheidiol i wneud yn siŵr bod fy mhlant wedi gwisgo i "ffitio mewn" gyda'u cyfoedion."***

### Stigma Tlodi

- Mae rhieni'n aml yn cuddio'u trafferthion ac yn osgoi gofyn am help oherwydd eu bod yn ofni cael eu barnu.

***"Stopiwch wneud i ni deimlo fel rhieni gwael oherwydd ein bod ni'n methu cyflenwi popeth sy'n ddisgwyliedig."***

### Teuluoedd sy'n gweithio

- Mae teuluoedd sy'n gweithio yn profi baich dwbl oherwydd eu bod yn brin o amser yn sgîl ymrwymiadau gwaith, ond yn dal i wynebu brwydrau ariannol.

***"Rydw i'n gweithio'n llawn amser, does dim help i deuluoedd sy'n gweithio... er ein bod ninnau'n cael trafferth ymdopi'n ariannol hefyd. Does dim help o gwbl, ond rydyn ni'n talu'n llawn am bopeth."***

### Bywyd fel rhiant

- Mae tlodi'n cael effaith ddofn ar ymdeimlad rhieni o'u hunaniaeth, ac yn aml yn eu gadael wedi'u llethu gan gywilydd, euogrwydd ac ymdeimlad o fethiant.

***"Rydw i'n teimlo cywilydd mod i'n methu darparu ar gyfer fy mhlentyn fel byddwn i'n dymuno, rydw i'n teimlo mod i'n gadael fy mhlant lawr."***

## Addysg

**Gwisg Ysgol, Teithiau ysgol a Digwyddiadau** oedd y costau ysgol anoddaf i'w rheoli

**25%**

Dywedodd **25%** o rieni fod eu plant yn colli ysgol oherwydd costau.

*"Rydw i wir eisiau i'm plentyn fynd ar deithiau ysgol, teithio a dysgu, achos mae'n dda i'w iechyd corff a meddwl, ond mae'r gost mor uchel, alla i ddim fforddio fe."*

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

CYSWLLT RHIENI CYMRU
PARENTS CONNECT WALES

## Cinio ysgol am ddim

**66%** Dywedodd **66%** o rieni fod eu plant yn elwa o'r rhaglen prydau ysgol am ddim.

**55%** Dywedodd rhieni fod prydau ysgol am ddim wedi cael effaith ariannol gadarnhaol.

*"Fe wnes i ddefnyddio'r arian bydden ni fel arfer yn ei dalu am brydau ysgol ar ddiwrnodau allan gyda'r plant, yn rhoi profiadau newydd iddyn nhw."*

**ANAWSTERAU – Dognau bach ac ansawdd y bwyd.**

## Y rhwystrau i oresgyn tlodi

- **Gofal plant**
- **Costau byw cynyddol**
- **Systemau ddim yn gweithio**
- **Stigma**

*"Teimlo bod pobl yn edrych lawr arna i oherwydd mod i ar fudd-daliadau."*

## Awgrymiadau ar gyfer cefnogaeth

**Cefnogaeth emosiynol:** mannau diogel, gwell gwasanaethau cefnogi ac empathi a dealltwriaeth

**Cynaliadwyedd**

**Hunan-ddibyniaeth**

**Sgiliau bywyd**

**Cefnogaeth ariannol:** cyflogaeth, lleihau costau byw a chynyddu incwm aelwydydd

**Ffocws cymunedol:** gweithgareddau, cymorth a lleoedd

*"Mae angen i ni geisio addysgu a chefnogi teuluoedd i dorri'r cylch heb gael eu barnu."*

## Gadewch i ni i gyd weithio gyda'n gilydd.... 'Mae pob rhiant eisiau'r gorau i'w plant.'

Hoffai plant yng Nghymru ddiolch i'r holl rieni a roddodd o'u hamser i gwblhau'r arolwg.